

Creative Rural Communities yw menter adfywio gwledig Cyngor Bro Morgannwg ac mae'n gweithio gyda chymunedau i ddatblygu prosiectau a syniadau arloesol fydd o fudd i les cymdeithasol ac economaidd hirdymor y Fro.

Ers 2004 rydyn ni wedi helpu i wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig trwy ariannu prosiectau sy'n cefnogi:

- Gwell gwasanaethau ar gyfer yr economi a'r boblogaeth wledig
- Adnewyddu pentrefi
- Gweithgareddau twristiaeth
- Cadwraeth ac uwchraddio'r dreftadaeth wledig
- Arallgyfeirio gan deuluoedd ffermio i weithgareddau sydd ddim yn amaethyddol
- Creu a datblygu mentrau micro

O agor pum safle gweryslla i lansio llwybr treftadaeth newydd yn dathlu bywyd un o gymeriadau mwyaf lliwgar yr ardal, mae 2012 hyd hyn, wedi gweld cyflwyniad a datblygiad prosiectau newydd a rhai sydd eisioes yn bodoli, i helpu i wella ansawdd bywyd yn y Fro wledig. Dyma rai o'r uchafbwyntiau diweddar...

GWERSYLLA ARFORDIROL PERFECT PITCH



Er bod Bro Morgannwg yn gartref i amrywiaeth o ddarparwyr llety, mae yna alw cynyddol wedi bod am safleoedd sy'n darparu ar gyfer gwerysllwyr a theithwyr ar gyllideb.

Ddiwedd 2011 fe lansion ni gynllun peilot Gwersylla Arfordirol, yn cynnig help i dirfeddianwyr lleol gyda chynllunio, ariannu, trwyddedu a'r cyngor ymarferol sydd ei angen i sefydlu safleoedd gweryslla arbrol.

Gyda lansiad diweddar Llwybr Arfordir Cymru a Bro Morgannwg yn croesawu Eisteddfod Genedlaethol 2012, yr haf hwn oedd yr amser delfrydol i annog ymwelwyr i osod eu pebyll yno gan edrych beth sydd gan yr ardal i'w gynnig.

Cymerodd pump o dirfeddianwyr lleol ran yn yr arbrawf, gyda phob safle yn croesawu gwerysllwyr am

hyd at 28 diwrnod. Cafodd Gwersylla Arfordirol Perfect Pitch ei gefnogi gan y Guardian, Daily Express, Western Mail, Croeso Cymru a www.coolcamping.co.uk, a chafodd gefnogaeth leol gan y wasg ranbarthol yn cynnwys y gyfres GEM, South Wales Echo, Glamorgan Gazette a Buzz Magazine.

Bu dros 600 o wersyllwyr yn aros yn un o'r pum safle newydd dros yr haf, gan fanteisio ar yr holl amwynderau lleol ac archwilio treftadaeth unigryw'r Fro yn ystod eu harhosiad. Ers hynny mae Gwersyllwyr yr Arfordir Treftadaeth yn Yr As Fawr wedi derbyn caniatâd cynllunio i weithredu fel safle barhaol o 2013 ymlaen.



DILYN ÔL TROED IOLO MORGANNWG



I ddathlu bywyd a gwaith Iolo Morgannwg, un o benseiri cenedl y Cymry, cafodd taith gerdded newydd 6.5 milltir ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Roedd Iolo Morgannwg (1747-1846) yn fardd rhamantaidd, yn ffugiwr hynafiaethydd, yn ffugiwr llenyddol a hanesyddol, ac yn un o'r cymeriadau mwyaf rhyfeddol fu'n byw ym Mro Morgannwg.

Gan ddechrau yn yr Hen Neuadd yn Y Bontfaen, mae'r llwybr cerdded yn mynd o gwmpas 12 safle ym Mro Morgannwg a nifer o hen gyrchfannau Iolo, yn cynnwys The Bear Hotel, lle bu Iolo ar ymweliad yn gyson yn ystod ei ieuenctid a Bryn Owen, y man prydferth lle cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Gorsedd y Beirdd, a greuwyd i godi proffil iaith a diwylliant Cymru.

Mae'r daith gerdded newydd, a ddatblygwyd gyda chefnogaeth Yr Athro Geraint E Jenkins, arbenigwr nodedig ar Iolo Morgannwg, yn rhoi cyfle i ymwelwyr archwilio'r hanes y tu ôl i rai o fannau mwyaf prydferth y Fro.

Mae taflenni am y daith gerdded i'w cael am ddim yn Costa a The Bear Hotel ar Stryd Fawr Y Bontfaen, Tafarn The Bush Inn yn Sain Hilary, The Blue Anchor yn Nwyrain Aberthaw ac Eglwys Sant Illtud yn Llanilltud Fawr.

YMGYNGHORIADAU CYMUNEDOL

CYMUNEDAU'N DOD ALLAN YN GRYF



Mae trigolion y Fro wledig wedi cael y cyfle i rannu eu barn mewn nifer o ddigwyddiadau ymgynghoriad cymunedol a gynhaliwyd gan Creative Rural Communities.

Nod yr ymgynghoriadau yw annog trigolion i fynegi eu barn ar yr hyn y bydden nhw'n hoffi neu yn ei ddymuno ei weld yn cael ei gyflwyno a'i wella yn eu cymunedau. Bydd adborth o'r trafodaethau'n cael ei ddefnyddio'n ddiweddarach i helpu i nodi a datblygu prosiectau cymunedol yn y dyfodol

gyda chefnogaeth gan Creative Rural Communities.

Mae'r presenoldeb yn y digwyddiadau yma yn y gorffennol wedi bod yn wych ac mae cyfranogiad y trigolion yn pwysleisio nerth yr ysbryd cymunedol ar draws y Fro wledig. Bu tri phentref gwledig yn peilotio'r ymgynghoriadau,

Aberogwr, Llanbedr y Fro a Thresimwn. Yn dilyn eu llwyddiant, mae chwech ymgynghoriad arall wedi cael eu cynnal yn Ewenni, Dinas Powys, Y Bontfaen, Tregolwyn, Llandŵ a Llanfihangel y Pwll.

O ganlyniad i'r ymgynghoriadau gwledig yma, mae nifer o

brosiectau'n cael eu datblygu mewn pentrefi ar hyd a lled y Fro wledig, yn cynnwys meinciau newydd yn Llanbedr y Fro ac mae prosiectau'n canolbwyntio ar fannau chwarae newydd, sinemâu symudol a llyfrgelloedd cymunedol ar hyn o bryd yn cael eu cynnal mewn pentrefi eraill.

Os ydych chi'n meddwl y gallai'ch pentref gael budd o gynnal ymgynghoriad cymunedol cysylltwch â:
 Mari-Wyn Elias Jones ar 01446 704637 neu mwelias-jones@valeofglamorgan.gov.uk /
 Jane Williams ar 01446 704755 neu jewilliams@valeofglamorgan.gov.uk.

TEITHIAU SINEMÂU GWLEDIG



Mae sinema'n thema gaiff ei chodi'n aml yn ein digwyddiadau ymgynghori cymunedol ar draws y Fro.

Yn gynharach eleni, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi yn Neuadd y Plwyf, Dinas Powys, lle cafodd 24 o gynrychiolwyr cymunedol o bob rhan o'r Fro wledig eu gwahodd i fynychu sgwrs gan Moviola, Multiplex Gwledig y De a'r Gorllewin.

Mae Moviola yn cyflenwi ffilmiau ac yn gweithredu rhwydwaith o 90 o sinemâu gaiff eu rhedeg gan y gymuned ar draws Dorset, Dyfnaint, Hampshire, Gwlad yr Haf a Wiltshire. Roedd y sesiwn yn trafod popeth o ddatblygu cynulleidfa a rhaglennu ffilmiau i osod a defnyddio'r cyfarpar.

Er mwyn cwrdd â'r galw am sinemâu yn y Fro wledig, bydd set newydd o gyfarpar yn cael eu prynu cyn hir trwy'r Rhwydwaith Digwyddiadau Gwledig er mwyn sgrinio ffilmiau arbrolf mewn lleoliadau cymunedol megis neuaddau pentref a thafarndai.

Os bydd y digwyddiadau sgrinio yma'n llwyddiannus, bydd y lleoliadau'n cael yr hawl i wneud cais am arian i brynu eu cyfarpar eu hunain dan y Cynllun Grantiau Canolbwyntiau Gwledig.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y sinemâu cymunedol, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

CYFARPAR NEWYDD AR GYFER Y RHWYDWAITH DIGWYDDIADAU GWLEDIG

Ers 2009, mae'r Rhwydwaith Digwyddiadau Gwledig wedi bod yn rhoi cyfle i drefnwyr digwyddiadau yn y Fro wledig i rannu syniadau a phrofiadau yn ychwanegol at logi cyfarpar digwyddiadau am ddim.

Mae'r aelodaeth wedi mynd o nerth i nerth ac mae'r Rhwydwaith Digwyddiadau Gwledig nawr yn cynnwys dros 100 o aelodau. Yr haf hwn mae'r rhwydwaith wedi buddsoddi mewn amrywiaeth eang o gyfarpar newydd sy'n cynnwys 20 gasebo newydd, system PA newydd, amrywiaeth

o gemau plant a chromen corryn newydd sydd, gan ei bod yn 8m o led, yn denu cryn dipyn o sylw! Ymddangosodd y cyfarpar newydd am y tro cyntaf yng Ngŵyl Lyfrau Y Bontfaen yn gynharach eleni ac ers hynny mae wedi cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth

o ddigwyddiadau bach a mawr ar draws y Fro wledig.

Er mwyn ymuno â'r rhwydwaith, mae angen i aelodau drefnu digwyddiad, sydd ddim yn gwneud elw, yn y Fro wledig ac a fydd ar agor i bawb.

Am fwy o wybodaeth
ac i logi cyfarpar ewch i
ruraleventsnetwork.co.uk



BALCHDER YN EIN TREFTAETH



www.illtudsgalileechapel.org.uk

Mae Creative Rural Communities yn ddiweddar wedi cymeradwyo grantiau o £70,000 a £64,635 ar gyfer prosiectau i adnewyddu adeilad yr 'Hen Le' a Chapel Galilea yn Llanilltud Fawr, yn y drefn honno.

Mae prosiect Capel Sant Illtud yn bwriadu adnewyddu Capel Galilea, sydd heb do ar hyn o bryd, gan ei adfer fel canolfan ymwelwyr ar gyfer astudiaethau Cristnogol Celtaidd. Yn ogystal â darparu man arddangos addas ar gyfer cerrig Cristnogol Celtaidd, mae ystafell archif, toiledau ac ystafell de hefyd yn cael eu datblygu drwy'r ariannu. Mae'r Cronfa Dreftadaeth y Loteri hefyd wedi rhoi grant o dros £500,000 tuag at y prosiect.

Cafodd yr Hen Le, heneb restredig, Gradd II o'r 16eg

ganrif, ei chydabod fel un o'r adeiladau oedd fwyaf dan fygythiad yng Nghymru. Y perchennog blaenorol oedd Cyngor y Fro, a'i werthodd i saer maen lleol oedd â brwdfrydedd anhygoel am adfer hen adeiladau. Ers hynny mae wedi derbyn grant o £70,000 oddi wrthon ni i adfer a sefydlogi rhan o'r castell, gan wneud y broses hon yn weladwy i'r cyhoedd.

Mae'r prosiect adfer hefyd yn derbyn cefnogaeth ariannol oddi wrth Cadw, Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

CYNLLUN COMMUNITY FOODIE

Sefydlwyd y prosiect hyrwyddo bwyd cymunedol hwn i nodi, datblygu a chefnogi mentrau cymunedol i dyfu bwyd yn ardaloedd gwledig cynghorau Bro Morgannwg, Sir Pen-y-Bont ar Ogwr, a Thorfaen.

Ein nod yw cryfhau cymunedau trwy sicrhau bod mwy o gynnyrch yn cael ei dyfu a'i fwyta'n lleol, yn ogystal â datblygu sgiliau gwerthfawr, hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a dod â phobl o bob oed at ei gilydd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn tyfu bwyd neu os ydych yn berchen ar dir ac eisiau ystyried cyfleoedd i dyfu, cysylltwch â **Rob McGhee** ar **01446 704835** neu rmcgee@valeofglamorgan.gov.uk.



ARIAN GRANT AR GAEL

Mae ganddon ni amrywiaeth o gynlluniau grant gyda grantiau hyd at £70,000 ar gael i gefnogi:

- Teuluoedd ffermio sydd am ychwanegu at eu hincwm trwy arallgyfeirio i feysydd busnes eraill.
- Gwelliannau corfforol allanol i'ch pentref lle mae'r anghenion hyn wedi eu nodi gan y cymunedau eu hunain.
- Prosiectau sy'n helpu adnoddau cymunedol 'gwyrdd' trwy leihau gwastraff ynni neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Buddsoddiad mewn treftadaeth naturiol, diwylliannol ac adeiledig.
- Arallgyfeirio'r adnoddau sydd ar gael megis tafarn, siop neu fan cymunedol i gynnig gwasanaethau newydd i'r gymuned.
- Llwybrau cerdded newydd i gysylltu pentrefi, pobl a llefydd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn falch o fod wedi rhoi cefnogaeth ariannol i'r prosiectau canlynol:

Cyfanswm Cost y Prosiect

Cyfanswm Grant y Cymunedau Gwledig Creadigol

GWASANAETHAU SYLFAENOL

Gathering Place Sain Tathan – Bleindiau Blacowt ar gyfer y sinema gymunedol	£1,239.36	£783.55
Neuadd Eglwys Sant y Brid – Adnoddau llyfrgell gymunedol	£1,967.67	£867.55

LLWYBRAU CERDDED NEWYDD NEU RAI WEDI EU GWELLA

Gwenfô - Twyn Yr Odyn	£5,506.93	£3,854.85
Llangan i Dregolwyn	£6,515	£4,560.50
Eglwys y Santes Fair	£11,996.84	£6,696.84
Llwybr Ceffylau Hensol	£16,951.25	£11,865.88
Trwyn yr As	£14,214.50	£9,950.15

TREFTADAETH

Ymddiriedolaeth Siarter y Bontfaen – adfer Muriâu'r Dref a chylch adrodd straeon	£22,310.22	£15,617.15
Cymdeithas Lenyddol Bro Morgannwg – y Prosiect Baledi	£6,810.00	£4,767.00
Yr Hen Le Llanilltud Fawr – Adfer	£98,602.83	£64,635.39
Capel Galilea Llanilltud Fawr – Adfer	£101,204.97	£70,000.00



Cyfanswm Cost y Prosiect

Cyfanswm Grant y Cymunedau
Gwledig Creadigol

ADFER PENTREF

Neuadd Gymunedol Celtic Way y Rhws – Paneli solar	£7,500.00	£5,250.00
Cyngor Cymunedol Llanbedr y Fro – Meinciau parc	£2,975.76	£2,083.03
Neuadd Bentref Penllyn – Adnewyddu	£5,700	£3,990
Canolfan Gymunedol Tregolwyn – gwresogi sy'n arbed ynni	£3,103.20	£2,172.24
Neuadd Bentref Pendeulwyn – gwresogi sy'n arbed ynni	£9,175.54	£6,422.88
Eglwys yr Holl Saint Southerndown – Ffenestri Newydd	£3,884.32	£2,719.02
Canolfan Gymunedol Murchfield Dinas Powys – gwell goleuadau	£2,394.00	£1,675.80

ARALLGYFEIRIO AR FFERMYDD

Phil Dando Racing – Cyfleuster newydd i hyfforddi ceffylau rasio	£59,690	£40,000
Stable Cottage – Sefydlu gwasanaeth i olchi rygiau ceffylau	£8,934	£6,253
Little Hamston Farm – Creu canolfan ar gyfer cystadlaethau marchogaeth tri diwrnod	£58,916	£40,000

CYSYLLTWCH Â NI

CREATIVE RURAL COMMUNITIES, YR HEN NEUADD, Y STRYD FAWR, Y BONTFAEN, BRO MORGANNWG, CF71 7AH

FFÔN: 01446 704754

EPOST: CREATE@VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK

DILYNWCH NI AR FACEBOOK.

www.creativeruralcommunities.co.uk



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government